

## Adroddiad Blynyddol 2013 - 2014



Disgyblion cyntaf Ysgol Bro Alun, Gwersyllt agorwyd fis Medi 2013

Dan nawdd:



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## Cynnwys

---

1. Cynnwys	2
2. Amcanion RhAG	3
3. Adroddiad y Cadeirydd	4
4. Adroddiad ar y Siroedd	5
5. Cyfarfodydd y pwyllgor cenedlaethol a'r Cyfarfodydd Blynyddol	15
6. Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad Cymru	16
7. Adroddiad Ariannol	17
8. Canghennau Lleol	18
9. Cysylltu	19

### Swyddogion 2013/2014:

Cadeirydd:	Lynne Davies
Is-gadeirydd:	Gwag
Ysgrifennydd:	Lynne Griffin
Is-ysgrifennydd:	Gwag
Trysorydd:	Alan Lewis
Swyddog Cysylltiadau:	Tim Pearce
Swyddog Ymchwil:	Heini Gruffudd
Ymgynghorydd Cyfreithiol:	Michael Jones

## Pwy ydym ni?

---

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn addysg Gymraeg, gyda rhwydwaith o aelodau ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth ar ddatblygu a gwireddu cynlluniau i ddarparu addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd a diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt gwerthfawr a hanfodol rhwng rhieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg gael ei derbyn yn gyffredinol.

Derbyniwyd bellach egwyddorion sylfaenol RhAG ar lefel sirol a chenedlaethol, gan gynnwys dau beth allweddol:

- Yr angen am strategaeth addysg Gymraeg
- Yr angen i fesur y galw am addysg Gymraeg

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd yn gyson ac yn cynrychioli rhieni ar sail cenedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrrff eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn llunio polisiau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog pob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd a swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisiau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol

## **Adroddiad y Cadeirydd**

---

Thema ein cynhadledd eleni yw “Addysg Gymraeg: sut mae llwyddo”, ac mae’n bleser croesawu ein siaradwr gwadd - Hywel Jones – ymgynghorydd ystadegol a sylfaenydd Statiaith.

Dan arweinyddiaeth ein Swyddog Datblygu, mae RhAG wedi lledaenu ei ddylanwad ac ehangu ein gweithgareddau eto eleni. Bu’n flwyddyn brysur tu hwnt gydag ymgyrchoedd lawer, ymatebion i ymgynghoriadau ac apeliadau drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi bod yn ffodus iawn eto i fanteisio ar arbenigedd cyfreithiol Michael Jones, arbenigedd ymchwilio Heini Gruffudd ac arbenigedd cyfathrebu Tim Pearce. Rydym yn ddiolchgar iawn i’n Trysorydd, Alan Lewis, am gadw trefn ar y cyfrifon eto. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Ceri Owen, sy’n llywio’r pwyllgor cenedlaethol drwy ymgynghoriadau lu, yn amlygu pwyntiau polisi sydd yn effeithio ar waith RhAG, yn rhoi cyngor i rieni ymhob cwr o’r wlad, llunio datganiadau i’r wasg a chydlynu pob agwedd o waith RhAG yn dra effeithiol.

Dyma ein blwyddyn cyntaf wedi’n cofrestru’n swyddogol fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). Mae hyn wedi agor drysau i ffynhonnellau eraill o nawdd, er mwyn ehangu gwaith RhAG. Gwnaed cais eleni at Gronfa Elw Park-Jones am arian i ddatblygu ‘twlcit’ i rieni sy’n chwilio am wybodaeth am addysg Gymraeg a gobeithiwn y bydd hwn yn llwyddianus. Gwnaethpwyd cais hefyd ar gyfer ymgyrch “Bwrw Mlaen” i gynyddu ymwybyddiaeth o fanteision addysg Gymraeg ymysg lleiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd.

Unwaith eto, bu grŵpiau RhAG dros Gymru gyfan yn gweithio’n ddiwyd er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg yn eu hardaloedd, yn cyfrannu lleisiau rhieni fel rhan o amrywiol ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan awdurdodau ledled Cymru ac yn ymateb i ddatblygiadau ar lefel cenedlaethol. Braff yw medru nod bod cangen Castell-nedd Port Talbot bellach wedi atgyfodi a changen newydd yn yr arfaeth yn Sir Ddinbych.

O ran cynydd, mae’n bleser cofnodi bod Safle’r Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Bro Alun, Gwersyllt wedi agor ym mis Medi 2013, Ysgol Croes Atti @Glannau Dyfrdwy wedi agor ym mis Medi 2014 ac fod ymrwymiad i sefydlu ysgolion newydd yng Nghasnewydd (Ysgol Uwchradd, agor yn 2016), Caerdydd (Ysgol Gynradd dwyffrwd yn Grangetown erbyn 2016) a Dinbych-y-pysgod (Ysgol Gynradd, agor yn 2016). Serch hyn, cropian tuag at amcanion y Strategaeth Addysg Gymraeg yr ydym ar hyn o bryd.

Un o’r heriau mwyaf sy’n gwynebu rhieni ar hyn o bryd yw’r realiti, neu’r bygythiad, o gynydd yng nghostau cludiant ôl-16. Gwelwyd codiad o fwy na 150% yn rhai siroedd eleni. Mae hynny’n gosod rhwystr arall i fynediad at addysg Gymraeg ac yn tanseilio strategaethau addysg y llywodraeth a’r awdurdodau lleol.

Mae RhAG yn gwbl ddibynol ar wirfoddolwyr ein pwyllgorau lleol a chenedlaethol er mwyn cyflawni holl amcanion ein cynlluniau gwaith. Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau a sgiliau newydd i’r pwyllgor y flwyddyn hon.

Lynne Davies  
Cadeirydd Cenedlaethol, Tachwedd 2014

## Adroddiad ar y Siroedd 2013-2014

---

### ABERTAWE

Mae ysgolion cynradd Abertawe'n datblygu'n gryf. Bydd angen cael safle newydd i Ysgol Tan y Lan, lle mae dwywaith nifer y plant a fwriadwyd yn cyrraedd yr ysgol, ac mae 33 o blant yn nosbarth meithrin Ysgol y Cwm, a ddechreuodd gyda 12 disgybl rhwng dwy flwyddyn ysgol. Mae cynlluniau i roi adeiladau newydd i Ysgol Lôn las, sydd â 526 o blant. Mae Pontybrenin yn orlawn, gyda 503 o blant, ac mae 485 yn ysgol Tirdeunaw. Ym mis Mawrth 2014 roedd 3002 o ddisgyblion yn ysgolion cynradd Abertawe a 1512 yn yr ysgolion uwchradd. Roedd 290 o blant ym mlwyddyn 6 yr ysgolion cynradd a 426 ym mlwyddyn 1, cynnydd o 47% dros 5 mlynedd, twf blynyddol o 9.3%, sy'n uwch nag erioed.

Bu RhAG yn ymgyrchu i gael agor Ysgol Gynradd yn ardal Tregwyr, gan fod adeilad i ddod yn rhydd. Cychwynwyd ymgyrch arall i gael Ysgol Gymraeg ar gyfer canol dwyrain Abertawe – yr ardal o Fforestfach i Blasmarl, sy'n cynnwys Trefansel a Chwmbwrla. Cychwynwyd cylch chwarae ond bydd angen mynd ati'n ddyfal i wireddu'r nod. Codwyd gobeithion gyda phenodi Arwyn Thomas yn Gyfarwyddwr Addysg ddechrau'r flwyddyn, ond caiff ei ddwyn gan Gwynedd erbyn ei diwedd. Cafodd Ysgolion Gwyr a Bryn Tawe eu cydnabod yn ddwy ysgol orau Abertawe gan y *Western Mail*.

Heini Gruffudd

### BRO MORGANNWG

Rydym yn cydnabod bod y Sir wedi gweithredu i ehangu Ysgol Pen-y-Garth i dderbyn dwy ffrwd, yn ogystal â chyhoeddi hysbysiad statudol diweddar i ehangu Ysgol Gwaun-y-Nant er mwyn sicrhau lleoedd digonol. Er hynny, mae'n bryder gweld datganiad yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir, sy'n nodi y bydd ehangu Gwaun-y-Nant yn diwallu'r galw am addysg Gymraeg yn Y Barri ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Mae lleoliad yr ysgolion presennol, ac felly crynswth y lleoedd, yn gwasanaethu canol a gogledd y dref, tra bod cymunedau yn ardaloedd mwyaf deheuol a dwyreiniol (h.y. Pencoedtre, Tregatwg a Palmerston) yn gorfod teithio allan o'u cymunedau i dderbyn addysg Gymraeg. Bydd hefyd yn golygu bod 2 o'r 4 ysgol Gymraeg sy'n gwasanaethu'r Barri yn rhai ar gyfer 420 disgybl, gydag addysg Gymraeg, ar y cyfan yn cael ei ddarparu mewn ysgolion mwy o faint.

Rydym yn ceisio pwyso ar yr Awdurdod i osgoi ystyried hwn fel datrysiad ar gyfer Barri yn ei gyfanrwydd a thrwy hynny osgoi'r cyfrifoldeb i adnabod cyfleoedd yn y blynyddoedd nesaf i ehangu mewn rhannau eraill o'r dref.

Mae rhai mannau amlwg o'r dref, megis Ynys y Barri sy'n hesb o unrhyw ddarpariaeth leol ar hyn o bryd. Bddai agor ysgol yno yn creu darpariaeth fyddai'n hygyrch i ardal y dociau sy'n ardal amlwg arall heb ddarpariaeth gymunedol. Yn yr un modd mae hygyrchedd addysg Gymraeg ym Mhenarth yn fater sy'n haeddu sylw.

Bellach mae pedair ysgol Gymraeg yn Y Barri ond dim ond un ym Mhenarth. O ystyried bod rhain yn drefi o boblogaeth sylweddol, credwn fod yma sefyllfa anghymesur o safbwynt cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn y Sir.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynnig i uno Ysgol Gymraeg Nant Talwg ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg rhwng Medi a Tachwedd 2014.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer arfordir Penarth na'r Sili gyda phlant yr ardal yn gorfod teithio ar fws i Ysgol Pen-y-Garth. Wrth ystyried hyn oll felly credwn fod dadl gref dros sefydlu ysgol i wasanaethu canol/arfordir Penarth a'r Sili.

Wrth droi at ardal wledig y gorllewin, mae'r Rhws yn gymuned sylweddol arall sy'n brin o ddarpariaeth leol, ble disgwylir i blant deithio i Lanilltud Fawr er mwyn cael addysg Gymraeg. Dyma ardaloedd twf y dylid eu blaenoriaethu yn y Cynllun hwn

Bydd Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr yn derbyn adeilad teilwng ar ôl bod mewn cytiau dros dro ond does dim amserlen bendant ar gyfer adeilad newydd i Ysgol Iolo Morgannwg yn y Bontfaen, er addo ers blynyddoedd lawer.

Ceir cydnabyddiaeth gan yr Awdurdod bod datblygiadau yn y cynradd yn mynd i gael effaith ar gapasiti Ysgol Gyfun Bro Morgannwg o fewn y 5 mlynedd nesaf, ond ni cheir unrhyw esboniad beth sydd mewn golwg ganddynt i ddygymod â'r sefyllfa honno.

Awgrymwn fod potensial i gydweithio traws-sirol gyda Chaerdydd yn y cyswllt hwn. Mae'n hysbys y bydd angen 4edd ysgol uwchradd Gymraeg ar Gaerdydd erbyn 2020 felly mae'n gwbl synhwyrol y dylid edrych ar ymarferoldeb cydweithio o'r fath. Nawr yw'r amser i ddechrau ar y gwaith cynllunio pwysig hwn.

Tim Pearce

## **CAERDYDD**

Roedd rhifau mynediad i addysg Gymraeg gynradd yn Ebrill yn siomedig iawn gyda ond 660 wedi cael lle o gymharu â 695 rhif terfynol y llynedd. Roedd arwyddion o dwf sylweddol yng ngorllewin Caerdydd ond twf dim ond 2% ar yr ochor arall gyda 7 ysgol â llefydd gwag ac ond 2 yn llawn dop. Yn y gorllewin roedd pob ysgol ond Coed-y-gof yn orlawn a graddfa'r twf tua 9%. Roedd arwyddion bod Treganna sydd mewn adeilad newydd sbon wedi bod yn ad-dynfa fawr ar draul Coed-y-gof lle dim ond 37 oedd wedi ceisio'r 60 lle. Roedd y pwysau arferol ar Nant Caerau (8 heb gael lle) a rhywbeth newydd, lefel anhygoel yn ceisio'r 30 lle ym Mhencae sef 52. Roedd yn amlwg bod eisiau'r 30 lle oedd wedi'u colli o Bwll Coch – 30 o hyd yn ceisio heb gael y 150 lle a ddarperir rhwng Pwll Coch a Threganna.

Pwyswyd ar y sir i agor dosbarthiadau cychwynnol i ddwyn pwysau oddi ar Nant Caerau, Treganna/Pwll Coch a Glanmorfa, ond ni chafwyd ateb.

Ers mis Ebrill mae nifer y mynediadau wedi codi i 707 sef 12 yn uwch na rhif terfynol 2013, ychydig yn llai na 2% o dwf. Rydym yn gwybod bod colled o 17 wedi bod i AS (11 disgybl) a ysgolion ffydd (6). Yr ysgol â cholledion uchaf oedd Glanmorfa (3 i AS). Mae'r taenlen yn dangos 737 lle ar gael ond mae'r 737 yn cynnwys 26 lle yn Y Creigiau sydd mewn gwirionedd yn y sector Saesneg. Nifer y llefydd ar gael i AG felly yw 711 a gyda 707 disgybl wedi cael lle mae'r system yn llawn. Mewn gwirionedd dyw'r sefyllfa ddim mor syml â hyn. Mewn 4 ysgol roedd cyfanswm o fwy na 4 lle heb eu cymryd-  
Coed-y-gof – 6 lle gwag                      Glan Ceubal – 4 lle gwag  
Penygroes – 14 lle gwag                      Penypil – 2 lle gwag  
Ond ar yr ochr arall mewn 3 ysgol ar y wyneb derbyniwyd 22 yn uwch na'r terfyn swyddogol –  
Gwaelod-y-garth – 4 ychwanegol    Pwll Coch – 7 ychwanegol  
Y Wern – 11 ychwanegol.

Ond mae'n hysbys bod rhif Y Wern wedi'i godi fel mater o argyfwng ers 3 blynedd i 75 ac ar fin cael ei godi'n barhaol i 75, gan godi'r cyfanswm o lefydd ar gael i 726 Panel apêl oedd yn gyfrifol am wthio rhif Pwll Coch nôl dros y 60; mae angen inni berswadio'r sir i wneud 30 lle ychwanegol ar gael yn ardal PC/Treganna trwy ddefnyddio un o'r ystafelloedd gweigion yn Nhreganna i godi'r llefydd argael i 756. Dyw hyn ddim yn cwrdd â'r anghenion yn Y Caerau nac yn ardal Sblot. Daw 2 le ychwanegol i Lan Ceubal ac mae'n bosibl rhagweld eu hangen yn o fuan.

Felly dylwn ymdrechu yn yr ardaloedd hyn-

- 1 I gael cyfanswm o 90 lle ar gael yn Y Wern i gael hyblygrwydd yn nalgylchoedd Y Wern a Mynydd Bychan
- 2 I sicrhau gwireddu'r cynllun i ddyblu niferoedd Glanmorfa o 30 i 60 i gwrdd â'r twf debyg yn nalgylchoedd Bro Eirwg, Penypil a Glanmorfa.
- 3 I gael dosbarth cychwynnol yn 2015 i fynd o flaen Ysgol Grangetown sydd i agor yn 2016 ac i gwrdd â'r galw welwyd eleni am 180 lle gyda'r sir yn gorfod darparu 167.
- 4 I agor dosbarth cychwynnol yn adeiladau Glyn Derw i dynnu pwysau oddi ar Nant Caerau
- 5 I gau'r ffrwd Saesneg yn Ysgol Gwaelod-y-garth.

Derbyniwyd 23.5 ffrwd i addysg Gymraeg eleni. Mae mwy na 20 ffrwd wedi'u derbyn ers Medi 2012 (656=22 ffrwd ie 660). Felly bydd 22 ffrwd eisiau lle Fedi 2020 yn y 3 ysgol uwchradd sy'n gallu derbyn rhyngddynt 20 ffrwd. Mae Ysgol Bro Morgannwg hefyd yn agos at fod yn llawn. Mae cynllunio ar gyfer ysgol uwchradd yn cymryd amser. Rhaid inni bwysu ar y sir am eu cynllun nawr.

Michael Jones

## **CAERFFILI**

Ganol tref Caerffili mae adeiladwyr wrthi'n ddiwyd yn moderneiddio hen ysgol y Gwyndy mewn pryd i Ysgol Gymraeg Caerffili symud i mewn yno ym mis Medi 2015. Ar yr un pryd mae'r contractwyr yn prysur adeiladu ymestyniad yng nghefn safle'r Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Bydd gofyn bod y gwaith hwn hefyd wedi'i gwblhau wrth i'r ysgol uwchradd groesawu ei trydydd derbynriad y flwyddyn nesaf.

Yng Nghwm Ebwy mae'r pwysedd mwyaf yn dal i fodoli, gyda'r potensial yn ardal Cross Keys a Rhisga eto i'w ddatblygu. Rhywsut, daeth yr awdurdod o hyd i le i godi ystafell ddosbarth dros dro arall ar dir Ysgol Cwm Gwyddon. Y darogan oedd, dair blynedd yn

ôl, y byddai'r ysgol hon yn dybli ei maint o fewn wyth mlynedd, ac mae'r ysgol yn prysur wireddu'r broffwydoliaeth.

Y broblem fwyaf ynglŷn â mynediad i Ysgolion Cynradd Cymraeg y sir ym mis Medi oedd anallu unrhyw un i sicrhau lle i blentyn y tu allan i ddalgylich eu hysgol benodol.

Ond gyda'r galw'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, fe fydd argyfwng yn y sir oni ellir sefydlu ysgolion ychwanegol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Ben Jones

## **CASNEWYDD**

Bu'n flwyddyn lawn i ardal Casnewydd unwaith eto eleni gyda nifer o heriau yn ein hwynebu. Efallai mai mynd yn ôl sector fyddai orau i ni adrodd ar weithgarwch y Sir.

Da yw medru nodi bod ychydig o sefydlogrwydd wedi dod i'n rhan eleni gyda 3 cylch ar agor a 4edd ar fin agor. Cylch Somerton yn ardal y Dwyrain, Cylch y Delyn yn ardal San Sulien, Cylch Cariad Bach yng nghanol y Ddinas, ardal Stow Hill a Chylch Cennin Pedr, ardal Dyffryn i agor yn fuan. Mae'r niferoedd yn isel iawn ac mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am hyn - yr un pennaf yw effaith Cylchoedd Dechrau'n Deg newydd ar y niferoedd plant sydd yn mynychu'r darpariaethau hyn o 2 oed. Mae ansefydlogrwydd y Cylchoedd hefyd wedi bod yn ffactor ac mae angen strategaeth benodol ar y sector hwn yn y ddinas sy'n cyfuno cynlluniau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Strategaeth Cymraeg Mewn Addysg y Sir fel bod yna gynllunio bwriadus ar draws y rhaglenni er budd twf Addysg Gymraeg.

Er y buddsoddiad cyfalaf sylweddol i'r cynllun hwn, nid oes Cylch Cymraeg wedi agor eto yng Nghasnewydd. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda rhieni i fesur y galw am ddarpariaeth Gymraeg. Er i'r ymatebion ddangos angen am ddarpariaeth Gymraeg mae cynlluniau'r Cyngor heb fod yn gadarnhaol iawn o ran agor lleoliadau newydd. Yn wir, nodwyd fod un lleoliad Cymraeg i'w agor ar safle Ysgol cyfrwng Saesneg – sydd yn hanesyddol heb weithio, o ran dilyniant i Addysg Gymraeg. Mae'r ffaith fod Dechrau' Deg ddim o dan bortffolio'r Adran Addysg hefyd yn bryder gan nad oes unrhyw ddealltwriaeth gan swyddogion y Cyngor fod gan raglenni eraill y cyfle i gyfrannu at weithredu'r Strategaethau Cymraeg mewn Addysg. Nodwyd hyn mewn cyfarfod diweddar gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg – Debbie Wilcox.

Erbyn hyn mae'r tair Ysgol gynradd sef Ysgolion Cymraeg Casnewydd, Lfor Hael a Bro Teyrnnon yn llenwi. Mae Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ar y safle newydd ers blwyddyn a chynlluniau i adeiladu dosbarthiadau Meithrin ar safleoedd Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon ac Lfor Hael wedi cychwyn gyda gwaith ar Lfor Hael yn digwydd nawr. Bydd pwyllgor lleol RhAG yn cwrdd â'r Prif Swyddog Addysg ym mis Rhagfyr i drafod nifer o faterion yn cynnwys cynllunio ar gyfer y bedwaredd ysgol gynradd.

Braf yw cael nodi llwyddiant eleni sef sicrhau fod cais am gyllid gan Gyngor Dinas Casnewydd i gronfa Ysgolion 21<sup>ain</sup>G ar ran y rhanbarth ar gyfer agor Ysgol Uwchradd newydd i Gasnewydd ym Medi 2016. Hyd yn hyn mae'r cais amlinellol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ac mae'r cais busnes yn cael ei baratoi. Dylai'r cais hwn fod gyda'r Llywodraeth erbyn mis Rhagfyr ac yna cawn wybod beth fydd y canlyniad yn gynnwys yn y flwyddyn newydd. Byddwn yn disgwyl ymgynghoriad cyhoeddus wedyn ar agoriad yr ysgol yn gynnwys yn y flwyddyn newydd.



Nid yw'r daith wedi bod yn un hawdd a dweud y lleiaf. Mae Adroddiad Comisiwn Williams wedi bwrw cysgod ar nifer o agweddau yn ystod y broses ond gobeithiwn yn fawr iawn y bydd y cydweithio diweddar yn parhau ac y gwelwn yr amserlen yn aros yn weddol agos i'r hyn sydd yn y datganiad yn Strategaeth Cymraeg mewn Addysg Casnewydd.

Ers mis Mai eleni, cludiant cludiant ôl-16, fu pwnc llosg y dydd sydd wedi ein cadw'n effro'n aml! Penderfynodd Casnewydd godi ffioedd cludo plant i Wynllyw o Gasnewydd o £45 llynedd i £347 eleni – a hynny heb ymgynghoriad cyhoeddus. Cynhaliwyd protest gan fyfyrwyr Ysgol Gyfun Gwynllyw yn yr Haf ac yn dilyn cafwyd cyfarfod buddiol iawn gyda'r Aelod newydd dros Addysg a Phobl Ifanc – Debbie Wilcox.

Ni dderbyniwyd ein cais i beidio codi'r ffioedd tan iddynt gynnal ymchwiliad achos effaith ac wedi derbyn cadarnhad o hyn mewn cyfarfod ym mis Awst gyda'r Prif Swyddog Addysg bu rhaid casglu tystiolaeth gan rieni a pharatoi at weithredu cyfreithiol. Mae'r mater yn parhau ac yr wythnos hon gobeithiwn yn fawr ein bod wedi canfod modd o herio'r penderfyniad gwreiddiol drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol. Nid oedd unrhyw sôn am effaith y weithred hon ar ddisgyblion nac ar yr ysgolion. Os na fydd ein cais am Adolygiad Barnwrol yn llwyddo byddwn yn cysylltu gyda'r Ombwdsmon yn union. Rydym wedi dysgu llawer iawn am benderfyniadau Cynghorau o gael y profiad hwn. Os dymuna unrhyw aelod o RhAG gyngor pan mae penderfyniadau fel hyn yn digwydd mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg am sgwrs.

Mae cynrychiolaeth o RhAG yn eistedd ar Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd a'r Consortiwm Addysg Lleol (GCA). Bu nifer o gyfarfodydd dros y flwyddyn gyda nifer o drafodaethau diddorol a bywiog. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod o fudd mawr i fwydo Strategaethau Addysg Gymraeg y Siroedd ac wedi bod yn gyfle i lenwi bylchau amlwg.

Elin Maher

## **CNPT**

Yn ystod mis Mawrth 2013 bu Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ymgynghori ar gynigion mewn perthynas â newid i bolisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol yr Awdurdod.

Mynegodd RhAG bryder mewn perthynas ag un elfen benodol, sef y bwriad i godi tal o £270 y flwyddyn i addysg 16+ yn y sir; datblygiad a fyddai'n rhoi'r dysgwyr ifanc hynny sy'n dymuno derbyn addysg Gymraeg dan anfantais anghymesur ac afresymol.

Hefyd byddai 90% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera yn dibynnu ar gludiant. Honnir na fydd codi tâl o £270 am fws ysgol ond yn effeithio ar 1 o bob 10 o ddisgyblion y sir. Roedd RhAG yn ymwybodol y byddai'r polisi felly'n effeithio ar 9 o bob 10 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Byddai codi tâl am gludiant ysgol yn cosbi'r llai cefnog yn fwy na neb, a pheri na fydd disgyblion o gefndiroedd tlotach yn gallu parhau ag addysg Gymraeg.

Penderfyniad y Cyngor oedd i basio cynnig yn codi £100 y flwyddyn ar ddisgyblion 16+ sydd tu allan i'r dalgylch swyddogol. Byddai rhai eithriadau i'r rheol honno, sef ar gyfer disgyblion gyda datganiad neu os yw rhieni yn gwneud cais o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i ailsefydlu cangen RhAG yn y sir. Cafwyd cytundeb unfrydol ac ers hynny mae'r gangen wedi cyfarfod unwaith yn barod. Mae sawl mater angen sylw brys gan gynnwys: (a) diffyg darpariaeth leol mewn sawl ardal o'r sir; b) ysgolion yn llawn e.e. Rhosafan; c) plant yn gorfod teithio allan o'r sir i dderbyn addysg Gymraeg; ch) sefyllfa'r uwchradd – anwybodaeth ac aneglurdeb ynghylch amserlen a chyllideb sefydlu'r ail ysgol gyfun Gymraeg sy'n peri ansicrwydd mawr i rieni disgyblion Bl 3 /4 + yn ysgolion Rhosafan, Tyle'r Ynn a Chastell-nedd.

## **PEN-Y-BONT AR OGWR**

Am yr eildro eleni mae'r cyngor yn ymgynghori ar gynnig i ddileu cludiant 16+ am ddim. Mae RhAG Pen-y-bont yn cydweithio unwaith eto gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd i gynnal arolwg gyda rhieni'r sir. Cafwyd ymgynghoriad ar gynnig arall i dorri darpariaeth meithrin, heb benderfyniad terfynol, gyda'r bwriad o ymgynghori unwaith eto y flwyddyn nesaf. Mae cangen RhAG Pen-y-bont yn parhau i frwydro dros agor ysgol arall i leddfu'r gorlif o Ysgol y Ferch o'r Sger ac Ysgol Bro Ogwr. Serch gwrthwynebiad RhAG yn lleol, bydd Ysgol Cwmgarw yn cael ei hadleoli i safle newydd yn Betws erbyn Medi 2017. Mae'r gwaith o fonitro a herio'r CSGA yn mynd rhagddo a chynrychiolwyr lleol yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm Addysg Gymraeg yn rheolaidd.

Lisa Wilson

## **GOGLEDD DDWYRAIN POWYS**

Mae'r gwaith o adeiladu adeilad newydd i Ysgol Dafydd Llwyd wedi cychwyn serch y gofidion ei bod wedi'i lleoli ar safle Ysgol Uwchradd Y Drenewydd. Gwrthodwyd cynnig y sir i gau Ysgol Carno, a bydd nawr yn cael ei ffedereiddio gydag Ysgol Llanbrynmair ac Ysgol Glantwymyn. Mae Mudiad Addysg Gymraeg Gogledd Ddwyrain Powys yn parhau i ddisgwyl gweld canlyniadau arolwg mesur y galw a gynhaliwyd yn 2013, er gofyn sawl gwaith. Nodwyd bod Powys wedi derbyn yr egwyddor o ystyried creu ysgol uwchradd benodedig yng Nghaereinion cyn diwedd 2014 fel rhan o'u CSGA. I'r perwyl hwn bu rhieni yn gwneud ceisiadau cyson ers mis Gorffennaf i gyfarfod ag uwch swyddogion, ond heb lwyddiant. Awgrym Powys bellach yw sefydlu'r ysgol erbyn 2015. Mae'n galonogol bod rhai a fu cyn hyn yn gyndyn iawn i gefnogi datblygiad o'r fath bellach yn gweld mai ysgol benodedig yw'r unig ffordd ymlaen, ond mae'r pryderon yn parhau o safbwynt arafwch ynghyd â diffyg amserlen bendant i wireddu'r weledigaeth.

Rhisiart Owen

## **RhCT**

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r gangen wedi bod yn canolbwyntio ar ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg o fewn Rhondda Cynon Taf. Roedd y gangen yn feirniadol iawn o'r ddogfen gan nad oedd unrhyw dargedau y tu hwnt i 2015 yn y drafft cyntaf ond mae hyn wedi newid bellach. Prif deimlad y gangen am y ddogfen hon yw bod diffyg uchelgais ynddi a bod yn cyngor yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol.

Bu cadeirydd y gangen mewn cyfarfod gyda'r Cynghorydd Geraint Hopkins, sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn y cabinet. Roedd y cynghorydd, sy'n siaradwr Cymraeg, yn gefnogol ond ddim am wneud unrhyw addewidion.

Ar hyn o bryd mae'r gangen yn ymateb i'r ailstrwythuro arfaethedig o fewn y sir. Pwysir am agor ysgol gynradd Gymraeg newydd yn ne'r sir (bydd ysgol newydd yn cael ei chreu fel rhan o ddatblygiad tai) ac am sicrhau buddsuoddi digonol mewn addysg safon uwch yn y Gymraeg. Mae'r cyngor yn argymhell dwy ganolfan rhagoriaeth safon uwch yn ysgolion Saesneg Treorci a Thonyrefail a allai fod yn niweidiol i addysg gyfrwng Gymraeg gan y bydd cymaint o ddewis ar gael i'n pobl ifainc yn y canolfannau Saesneg newydd.

Helen Prosser

## **SIR GAERFYRDDIN**

Ar 1 Gorffennaf 2013 bu RhAG yn rhoi tystiolaeth gerbron Gweithgor y Cyfrifiad, a sefydlwyd i edrych ar sefyllfa'r iaith yn y Sir yn dilyn Cyfrifiad 2011.

Mae gobaith y bydd pethau'n symud ymlaen yn gadarnhaol ar ôl i'r Bwrdd Gweithredol dderbyn argymhellion adroddiad y gweithgor hwnnw. Mae'r argymhellion am y sector cynradd yn cynnwys:

- Troi 3 ysgol 'drawsnewidiol' y Sir (rhai sy'n cynnwys cyfran helaeth o Gymraeg) yn ysgolion Cymraeg
- Troi ysgolion cynradd dwy ffrwd y Sir (mae 13 ohonynt) yn ysgolion Cymraeg
- Annog ysgolion Saesneg i gyflwyno'r cyfnod sylfaen trwy'r Gymraeg i ddatblygu ffrwd Gymraeg

Pe bai hyn yn cael ei wireddu'n llawn, byddai gan y sir 74 ysgol Gymraeg yn hytrach na'r 58 presennol, a 71% yn hytrach na 56% yn ysgolion Cymraeg.

Mae Sir wedi bod yn un o'r gwannaf yng Nghymru o ran dilyniant iaith o'r sector cynradd i'r uwchradd. Mae'r argymhellion am y sector uwchradd yn cynnwys:

- Derbyn protocol dilyniant clir rhwng y sector cynradd ac uwchradd
- Cyflwyno cynllun ail-gyfle yn y sector uwchradd
- Annog ysgolion 2A, 2B a 3 y sir i symud yn gadarnhaol ar hyd continwmm.
- Cynllunio twf addysg Gymraeg

Eisoes mae rhai o ysgolion dwyieithog y Sir wedi cryfhau eu darpariaeth Gymraeg gan gynnig 80% o'r pynciau trwy'r Gymraeg i ddisgyblion a gafodd addysg gynradd Gymraeg.

Mae angen croesi sawl pont i gyflawni'r cynlluniau hyn, ond mae RhAG yn croesawu'r bwriadau ac yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r Sir i gyflawni'r amcanion.

## **SIR FYNWY**

Newyddion pennaf yr ardal yw bod ysgol uwchradd newydd ar ei ffordd o'r diwedd yng Nghasnewydd – a bydd Sir Fynwy'n cyfrannu'n ariannol tuag at hwn er mwyn sicrhau llefydd i blant Sir Fynwy. Disgwylir i'r ysgol agor ar safle Duffryn ym mis Medi 2016. Dwy ysgol gynradd yn unig sydd yn Sir Fynwy, ac rydym yn parhau i wthio am ddarpariaeth yng ngogledd y sir, yn ardal Trefynwy. Mae gan RhAG gynrychiolaeth ar Fforwm

Addysg Gymraeg newydd Sir Fynwy, a bydd cyfarfod cychwynnol i'r grŵp ym mis Tachwedd 2014. Ein blaenoriaethau yw cynyddu ymwybyddiaeth am fanteision addysg Gymraeg yn y Sir ac mae cynlluniau ar y gweill i gynhyrchu taflen arbennig i'r perwyl hwnnw.

Lynne Davies

## **TORFAEN**

Ymunodd 152 o blant Torfaen ag ysgolion Cymraeg ym mis Medi sy'n cyfateb i 13.3 y cant o'r fintai. Dechreuodd 34 o blant yn Ysgol Bryn Onnen, 66 yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân a 52 yn Ysgol Gymraeg Panteg. Mae angen am Ysgol Gymraeg ychwanegol yng Nghwmbrân ac mae RhAG Torfaen yn ymgyrchu amdani.

Penderfynodd Cyngor Torfaen i newid rheolau cludiant ysgol am ddim o fis Medi 2015 ymlaen ar gyfer plant sy'n cychwyn ysgol neu yn newid ysgol. Ar hyn o bryd mae plant dan 11 oed sy'n byw pellach na milltir a hanner i ffwrdd o'u hysgol yn cael cludiant ysgol am ddim. Ar ôl mis medi 2015 bydd yn rhaid i blant dan 11 fyw pellach na ddwy filltir i ffwrdd o'u hysgol er mwyn iddyn nhw gael cludiant am ddim. Bydd y penderfyniad hwn yn effeithio Ysgol Bryn Onnen yn anghyfartal oherwydd bod lleoliad yr ysgol ar ben bryn hirlethrog.

Ailagorwyd Ysgol Cemys Fawr ym Mhanteg fel rhandy dros dro i Ysgol Gymraeg Panteg ym mis Medi, anheddwyd dosbarth derbyn a dosbarth blwyddyn un ynddo nawr. Penderfynodd Cyngor Torfaen i adeiladu Ysgol Gymraeg newid gyda lle ar gyfer 420 o blant ym Mhanteg, bydd yr ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2016.

Agorwyd Ysgol Meithrin newydd yng Nghwmbrân ym mis Hydref gyda lle ar gyfer 58 o blant.

Glyn Davies

## **PENFRO**

Roedd RhAG yn gwerthfawrogi'r cyfle a gafwyd eleni i ymateb i ymgynghoriad er mwyn cynllunio ar gyfer dyfodol Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y Sir. Mae ymdrechion y Sir i ymateb i argymhellion arolwg ESTYN; sef bod angen i'r cyngor weithredu strategaeth briodol i adnabod ac ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, hefyd yn gadarnhaol.

Roedd yn dda gweld bod arolwg o'r galw am addysg Gymraeg wedi digwydd mewn dwy ardal, lle nad oes darpariaeth ar gael yn lleol ar hyn o bryd. Gwelwn mai'r ddwy ardal dan sylw yw Aberdaugleddau a Tŷ Ddewi. Mae casgliadau'r arolwg yn dangos bod galw clir am ddarpariaeth cynradd cyfrwng Cymraeg yn y ddwy ardal ac y dylid gweithredu ar fyrder ar y canfyddiadau hyn.

Mae'n dda gweld yr ymrwymiad i gychwyn ysgol Gymraeg Dinbych y Pysgod erbyn Medi 2016, er y byddem wedi gobeithio gweld cychwyn cyflymach. Mae'n dda gweld bod yma darged o gael 50% o ddisgyblion Dinbych y Pysgod yn mynychu addysg Gymraeg.

Ymhellach at hynny nodwn bod Ysgol y Frenni, Crymych ymhell dros ei chapasiti swyddogol ac Ysgol Glan Cleddau, Hwlfordd hefyd yn agos at lawn dwf. Mae Penfro /

Doc Penfro hefyd yn ardaloedd lle nad oes ysgol cyfrwng Cymraeg yn eu gwasanaethu'n lleol ar hyn o bryd.

Mae angen cynllun ymarferol ledled y Sir er mwyn symud yr ysgolion dwy ffrwd, trosiannol ac ysgolion cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg ar hyd y continwm ieithyddol. Byddai datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweinyddiaeth pob dydd yr ysgolion hynny, yn gam naturiol a synhwyrol tuag at wireddu'r dyhead a'r angen i sefydlu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn arbennig yn ne'r Sir.

Mae cynnydd addysg Gymraeg yn ne'r Sir yn rhoi sail ar gyfer sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg yn ne'r Sir. Ar hyn o bryd mae disgyblion de'r Sir yn gorfod teithio'n bell i gael addysg uwchradd Gymraeg gyda 25% o ddisgyblion y Sir sy'n mynychu Ysgol y Preseli yn byw fwy na 45 munud o Grymch.

Yng ngwyneb hynny, a'r cynnydd sydd yn arfaeth ar gyfer Dinbych-y-pysgod, mae angen cynllunio'n awr ar gyfer ysgol uwchradd Gymraeg yn ne'r Sir.

## SIR DDINBYCH

Mae'n ymddangos bod Cynghorwyr Sir Ddinbych wedi pleidleisio i ddiddymu'r hawl i garfan o ddisgyblion yn y sir dderbyn addysg gyfrwng Gymraeg gyflawn yn rhad ac am dim (h.y. heb orfod ysgwyddo costau cludiant). Mae'r hawl hwn wedi bodoli ers tua 1971 - ers dyddiau'r siroedd Dinbych a Fflint blaenorol, wedi parhau trwy ddyddiau sir Clwyd, a thros 20 mlynedd diwethaf y sir ddinbych (sic) presennol.

Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog, Prion a effeithir gan y penderfyniad (ar hyn o bryd) wrth i'r sir geisio arbedion yn ei chyllideb trafndiaeth i ysgolion (dywedant mai tua £250k yw'r nod).

Mae'r ddwy ysgol yn dadlau fel a ganlyn:-

- Teithio i gyfeiriad Dinbych yw cyfeiriad naturiol a greddfol eu hardaloedd (o ran addysg, siopa, cymdeithasu ac ati) a'r ffyrdd yn fwy diogel a dibynadwy i'r cyfeiriad hynny.
- Mae'r disgyblion wedi gallu manteisio ar addysg gyflawn Gymraeg 11-18 yn Ysgol Glan Clwyd (neu gyfrwng Saesneg yn Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun), yn ôl dymuniad rhieni. Effeithir ar ryw 10-15 disgybl y flwyddyn (o ardal wledig a naturiol Gymreig, lle mae sawl disgybl wedi eu trochi'n effeithiol yn y Gymraeg mewn ysgolion bychain ond llwyddiannus). Mae egwyddor yr hawl i addysg gyflawn Gymraeg a dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd yn cael ei thanseilio.

Yn ôl sylw gan y Cynghorydd Eryl Williams, sef Deilydd Portffolio Addysg y Sir, rhaid gwneud arbedion ac mae'r sefyllfa ieithyddol wedi cael ystyriaeth!! Anodd dirnad faint o ystyriaeth a roddwyd i wir fudd y newid (yn y tymor byr) a'r costau a'r risgiau tymor hwy a allasai godi yn sgil y fath newid polisi

Y gwir amdani yw mai ysgol "ddwyieithog" neu dau gyfrwng yw Ysgol Brynhyfryd lle y bwriedir iddynt gael eu hanfon. Er bod honno'n ysgol dda, onid lleiafrif yw'r Cymry Cymraeg yno? Ni fydd modd i'r disgyblion dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg **ym mhob pwnc** gydol eu gyrfa yn yr ysgol rhwng 11-16 oed, a phrinach fyth o fewn addysg ôl-16. Nid yw gweinyddiaeth na iaith beunyddiol ysgol ddwyieithog wrth reswm yn Gymraeg er

mwyn atgyfnerthu'r ethos a'r addysgu a geir trwy'r Gymraeg. **Mae egwyddor bwysig wedi ei thorri yma sy'n gosod cynsail peryglus iawn**, o fewn y sir hon ac o fewn siroedd eraill sy'n chwilio am "arbedion". Hefyd gan bod hawl i bob disgybl cyfrwng Saesneg yn y sir gael trafndiaeth yn rhad ac am ddim i ysgol gyfrwng Saesneg o fewn y sir (neu trwy drefniant yn draws-ffiniol), mae diddymu'r hawl hyn i garfan o rai sy'n dymuno addysg gyflawn Gymraeg yn golygu nad yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae goblygiadau gyfreithiol i hyn, mi dybiaf.

Tybiaf bod hyn o gam yn tynnu'n groes i brif egwyddor a nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac yn foisol yn groes i Strategaeth Cymraeg mewn Addysg sir ddinbych. Soniwyd hefyd am y bwriad o addasu'r CSCmA sirol. Ymhellach, deallaf bod camau ar droed a thrafodaethau i'w cynnal o fewn y sir er mwyn ail-ddiffinio ysgolion yn ieithyddol (ochr yn ochr a'r polisi trafndiaeth) a hwyluso diddymu'r hawl i addysg gyflawn Gymraeg (h.y. i ysgol Gymraeg categori 1) fel bo'r broblem yn diflannu yn ne y sir (o deithio i Wrecsam). Eisioes dylai bod archwiliad gwerth-am-arian trwyadl yn cael ei gynnal ar fregusder llwyddiant y model ysgol ddwyieithog sydd yno - ni all neb honni bod honno'n cynnig unrhyw beth yn debyg i addysg gyflawn Gymraeg.

Hyd yma ni sefydlodd RHAG droedle yn Sir Ddinbych, er sawl ymdrech. Serch hynny mae'n bwysig i'r gymdeithas ymladd y frwydr hon ar ran y gymuned ac ar ran Addysg Gymraeg, cyn i'r arferiad ledu fel dominos ar draws sawl sir gyfagos.

Meurig Rees

**\*Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i gynnal cyfarfod cyhoeddus er mwyn sefydlu cangen RhAG yn yr ardal.**

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

---

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

13/5/13      5/7/13      30/9/13      21/10/13      20/1/14      17/3/14

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar: **23 Tachwedd 2013**

Erbyn hyn mae'r drefn o gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol wedi hen ymsefydlu. Cynhelir y cyfarfodydd yn fisol, fel arfer ar drydydd nos Lun y mis, a hynny ar ffurf cylchdaith mewn amrywiol ardaloedd, sy'n cynnwys Pencoed, Caerdydd a Maesaleg ger Casnewydd. Byddwn yn cwrdd rhwng 6 - 8 gwaith y flwyddyn. Gellir darllen y cofnodion ar ein gwefan: <http://www.rhag.net/dogfennau.php>

**Cyfarfodydd RhAG Gwent:** 17/6/13    17/9/13

### **Eisteddfodau a gwyliau cenedlaethol**

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013 – cafwyd gofod ar stondin teulu Ysgol Glan Clwyd.

Hoffai RhAG ddiolch i'r ysgolion am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parod.

### **Cyfarfod Cyhoeddus RhAG ac UCAC**

#### **Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau**

12 y.p. Dydd Mercher Awst 7fed    Pabell Cymdeithasau 1

#### **Addysg Gymraeg a Chynllunio: yr heriau a'r cyfleoedd**

Golwg ar y gogledd-ddwyrain

Trafodaeth yng nghwmni panel o siaradwyr gwadd

Cadeirydd: Meurig Rees

- Meirion Davies, Prif Swyddog Menter Iaith Conwy
- Dyfan Phillips, Pennaeth Ysgol y Llys, Prestatyn
- Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg, Cyngor Sir Ddinbych

## Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

---

### Cyfarfodydd gyda ACau:

Huw Lewis, Gweinidog dros Addysg a Sgiliau  
Simon Thomas AC, Llefarydd Addysg Plaid Cymru  
Aled Roberts AC, Llefarydd Addysg Democratiaid Rhyddfrydol  
Suzy Davies, Llefarydd Addysg, Ceidwadwyr Cymreig  
Leanne Wood, AC Canol De Cymru, Plaid Cymru  
Alun Davies AC Blaenau Gwent, Llafur Cymru  
Jill Evans ASE Plaid Cymru

### Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru:

19/4/13      23/5/13      18/9/13      21/10/13

### Cyflwyno tystiolaeth i COMEX: 29 Ebrill 2013

### Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg

Mae cynrychiolaeth gan RhAG yn eistedd ar y canlynol:  
Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Caerdydd; Casnewydd; CNPT; Merthyr; Pen-y-bont ar Ogwr; Powys; Rhondda Cynon Taf; Torfaen a Wrecsam.

### Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Iaith

Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy; Merthyr; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerdydd

### Mudiadau Dathlu'r Gymraeg

Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Swyddog Datblygu yn weithgar gydag ymgyrch y Mudiadau mewn perthynas â'r Grwp Trawsbleidiol dros y Gymraeg a Diwrnod Shwmae Sumae.

### Cronfa Glyndŵr

Mae Swyddog Datblygu yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd ar foreau Sadwrn bob chwarter.



31 Mawrth 14  
**RhAG – ADRODDIAD ARIANNOL BA 13/14**

**Mewn Llaw ar 1 Ebrill 13** **£6,788.73**

**Derbyniadau 1 Ebrill 13 – 31 Mawrth 14**

Tal Aelodaeth	£3,452.27
Grant Llywodraeth Cymru	£34,518.00
Cyfarfod Blynyddol	£52.00
Eraill	£0.00

**Is Cyfanswm Derbyniadau** **£38,022.27**

**Cyfanswm Derbyniadau Hyd at 31 Mawrth 14** **£44,811.00**

**Gwariant 1 Ebrill 13 – 31 Mawrth 14**

Costau Cyflogi Swyddog	
Costau Tal	£27,468.64
Costau Redeg Y Swydd	£1,599.52
Pensiwn	£1,904.88
Teithio	£2,320.20
Treuliau	£183.91
Ffon Symudol	£200.00
Cynhyrchu RhAG Olwg	£1,067.40
Rhedeg Wefan RhAG	£86.40
Cynadleddau a Chyfarfodydd	£193.00
Costau eraill	£105.75
Datblygiad Proffesiynol	£115.00

**Cyfanswm Gwariant Hyd at – 31 Mawrth 14** **£35,244.70**

**Mewn Llaw ar – 31 Mawrth 14** **£9,566.30**

## Canghennau Lleol - Cysylltiadau

Sir	Enw	Ffôn	E-bost
Abertawe	Heini Gruffudd	01792 455410	heinigruffudd@btinternet.com
Gwent	Alun Tomos		alun_tomos@hotmail.com
Blaenau Gwent	Meryl Darkins		meryl.darkins@btinternet.com
Bro Morgannwg	Tim Pearce	01446 19294	t.j.pearce@ntlworld.com
Caerdydd	Nona Gruffudd- Evans		mathew.nona@ntlworld.com
	Michael Jones		mikeandethni@gmail.com
Casnewydd/Newport	Elin Maher	01633 243700	elin.maher@ntlworld.com
Castell-nedd/Neath Port Talbot	Roger Williams		rogwilliams@mac.com
Caerffili	Ben Jones	029 2086 2428	benamary2000@yahoo.co.uk
Mynwy/ Monmouthshire	Lynne Davies		lynne.davies@cancer.org.uk
Pen-y-bont/Bridgend	Lisa Wilson / Mal John	01656 650071	lbarney@sky.com maljohn1@hotmail.com
Powys (Aberhonddu / Pontsenni)	Lynne Griffin		lynne@griffinrally.com
Porth Tywyn	Rachel Davies		rachelrees-hughes@hotmail.co.uk
Buallt (Llanfair-ym- Muallt a'r Cylch)	Stephen Mason		coednorth@tiscali.co.uk
Rhondda Cynon Taf	Dafydd Roberts		dafydd@glancreigiau.plus.com
Dinefwr (Dyffryn Tywi)	Cefin Campbell		cefin@sbectrwm.com
Torfaen	Glyn Davies		Glyndavies47@aol.com
Wrecsam	Arfon Jones		arfon55@btinternet.com



## Cysylltu

---

Ceri Owen  
Swyddog Datblygu  
Rhieni dros Addysg Gymraeg  
Tŷ Cymru  
Greenwood Close  
Parc Busnes Porth Caerdydd  
Caerdydd  
CF23 8RD

02920 739207  
07912175403  
[ceri@rhag.net](mailto:ceri@rhag.net)

[www.rhag.net](http://www.rhag.net)

Facebook: <http://www.facebook.com/rhieni.gymraeg>

Trydar: @RhAG1